## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD

# ADRODDIAD DIWEDDARU AM ORFODI CYNLLUNIO

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Lluniwyd yr adroddiad a'r ddogfen sydd ynghlwm i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio am achosion gorfodi cynllunio a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn unig a bydd yn galluogi'r Aelodau i nodi achosion gorfodi unigol, y camau a gymerwyd hyd yma a'r Swyddog Achos perthnasol.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'r system Cynllunio Tref a Gwlad yng Nghymru'n rheoleiddio'r broses o ddefnyddio a datblygu pob tir ac adeilad. Efallai bydd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn datblygiad anawdurdodedig neu unrhyw achos o dorri amod cynllunio a osodwyd yn rhan o ganiatâd cynllunio.

2.2 Er nad yw'n drosedd ynddi'i hun gwneud datblygiad anawdurdodedig neu newid defnydd tir, mae pwerau ar gael i Awdurdodau Cynllunio Lleol arfer rheolaeth gynllunio ar ddatblygiad anawdurdodedig. Mae'n drosedd methu â chydymffurfio â chamau gorfodi.

2.3 Dan Ran VII o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol amrywiaeth o bwerau gorfodi i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolau cynllunio. Mae'r pwerau hyn yn rhai dewisol.

2.4 Yn Sir Ddinbych, ymdrinnir â Gorfodi Cynllunio gan y tîm Cydymffurfiad Datblygiad a Rheoli Datblygiad sydd yng Nghaledfryn, Dinbych. Mae'r tîm yn eistedd yn y Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd.

Rheolir y tîm gan y Rheolwr Cydymffurfiad Datblygiad a Rheoli Datblygiad ac ar hyn o bryd mae yno ddau Swyddog amser llawn yn ymdrin â'r baich achosion i'r Sir gyfan. Mae'r tîm yn ymdrin â rhyw 500 o gwynion cysylltiedig â chynllunio bob blwyddyn.

2.5 Dan Gynllun Swyddogion Dirprwyo'r Adran Gynllunio, mae gan Swyddogion awdurdod dirprwyedig i gymryd amrywiaeth o gamau gorfodi cynllunio brys. Fodd bynnag, mae nifer o achosion gorfodi cynllunio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio yn y tair blynedd ddiwethaf lle mae Aelodau wedi awdurdodi camau. Mae'r achosion hyn yn tueddu i fod yn rhai lle gwrthodwyd ceisiadau cynllunio ôl-weithredol a lle byddai camau gorfodi cynllunio dilynol yn ofynnol i fynd i'r afael â'r achos o dorri rheolau cynllunio.

2.6 Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn **Atodiad 1**, mae tabl o achosion gorfodi cynllunio a awdurdodwyd gan y Pwyllgor. Mae'r tabl yn hunan eglurhaol ac mae'n rhoi gwybod i'r Aelodau ym mha gyfnod y mae'r achos gorfodi. Mewn rhai achosion, bydd yr Aelodau'n sylwi bod yr achos bellach wedi'i gau.

2.7 Anogir yr Aelodau i gysylltu â'r Swyddogion Gorfodi Cynllunio i roi gwybod am unrhyw achos posibl o dorri rheolau cynllunio a byddant yn gwneud pob ymdrech i roi gwybod y diweddaraf i'r Aelodau am yr ymchwiliad. Efallai bydd rhai ymchwiliadau'n cymryd tipyn o amser i'w

cwblhau ond bydd y Swyddogion bob amser yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf os bydd amgylchiadau'n newid.

2.8 Dyma fanylion cyswllt y Swyddogion Gorfodi Cynllunio:-

- Wayne.williams@denbighshire.gov.uk – 01824 706806
- Jill.emerson@denbighshire.gov.uk – 01824 706743

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad a'r atodiad.

**GRAHAM H. BOASE**
**Y PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD**